Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ymgynghoriad ar adolygiad o God Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2024

Dyddiad cau 27 Ionawr 2025

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 4

**Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig i'r Cod** 6

Consultation questions 10

**Cod Ymarfer Archwilio Drafft** 12

Mae'r Cod hwn yn rhagnodi sut y dylid cyflawni fy swyddogaethau archwilio a swyddogaethau eraill. 12

Diben archwilio'r sector cyhoeddus yw adrodd ar y defnydd o arian cyhoeddus 14

Mae fy ngwaith archwilio yn seiliedig ar bedair egwyddor – canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur ac yn atebol 15

- Canolbwyntio ar y cyhoedd 15
- Bod yn annibynnol 15
- Bod yn gymesur 16
- Bod yn atebol 16

Mae'r Cod hwn yn rhagnodi sut y dylai archwilwyr gyflawni fy swyddogaethau 16

Gofynion o ran swyddogaethau penodol 19

- Boddhad o ran trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 19
- Archwilio cyfrifon 21
- Arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau wrth archwilio cyrff llywodraeth leol 24
- Gohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â buddiant 24
- Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian 26
- Archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy 30

# Cynnwys


Arfer swyddogaethau archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol 31

Atodlen 1: Swyddogaethau penodol eraill 31

Darparu cyngor a chymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a phwyllgorau eraill y Senedd 31

Arfer swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru 32

Darparu cyngor a chymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig 32

Datgelu gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru 33

Cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol 33

Cymryd rhan â 'statws arsylwi' ar weithgorau allanol 35

Cyfarwyddo cyrff llywodraeth leol i gyhoeddi gwybodaeth am eu perfformiad 35

Paru data 36

Atodlen 2: Archwilio cyrff bach 37

Atodlen 3: Cwmpas y Cod 39

# Cyflwyniad

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyroddi Cod Ymarfer Archwilio sy'n rhagnodi'r modd y mae rhai o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i'w cyflawni. Mae'r Cod yn bwysig oherwydd ei fod yn nodi'r modd y cynhelir archwiliad sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys drwy fod y mecanwaith ar gyfer cydymffurfio â safonau archwilio rhyngwladol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ar ddiweddariad drafft o'r Cod Ymarfer Archwilio. Yn dilyn ymgynghoriad, caiff fersiwn derfynol o'r Cod ei dyroddi a'i chyhoeddi gan yr Archwilydd Cyffredinol i ddisodli fersiwn bresennol (2020) o'r Cod.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat ac/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Sut i ymateb**

Atebwch drwy lenwi'r ffurflen ymateb sydd ar gael yn y ddolen hon erbyn 27 Ionawr 2025. Cewch lenwi'r ffurflen yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Fel arall, anfonwch eich ymateb atom yn ysgrifenedig drwy'r post neu e-bost gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ymgynghoriad ar y Cod
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

E-bost: post@archwilio.cymru

Ffôn 02920 320 500

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, cyfeiriwch cyn belled ag y bo modd at baragraffau perthnasol y Cod drafft.

Peidiwch â theimlo bod angen i chi wneud sylwadau ar y Cod drafft yn ei gyfanrwydd. Rydym yn croesawu ymatebion byr sy'n mynd i'r afael â'r materion hynny y byddwch eisiau rhoi eich barn arnynt yn unig.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth honno yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gellir cynnal cyfrinachedd ar bob achlysur. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a grëir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn gyfrwymol ar yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru.

Caiff data personol eu prosesu yn unol â GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Pan fo data o'r fath o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan berson arall, bydd angen ystyried darpariaethau'r ddeddfwriaeth berthnasol o dan yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth sy'n ymwneud ag uwch-swyddogion a ffigurau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu ond mae enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu hatal.

# Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig i'r Cod

1 Rydym wedi ystyried newidiadau a ffactorau arwyddocaol eraill yng nghyd-destun archwilio a swyddogaethau cysylltiedig a pha un a oes angen diweddaru'r Cod mewn ymateb. Mae'r newidiadau a'r ffactorau hyn yn cynnwys:

a cyfyngiadau adnoddau ar draws y sector cyhoeddus;

b datblygiadau mewn technoleg, yn enwedig y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol;

c datblygu safonau archwilio rhyngwladol ychwanegol a Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, a

ch newidiadau diweddar yn y ddeddfwriaeth.

2 Y prif newidiadau arfaethedig yw:

a **Cryfhau'r pwyslais ar gymesuredd** - yn yr adran ar bedair egwyddor archwilio cyhoeddus (paragraff 19), rydym wedi ychwanegu gofyniad ar archwilwyr i wneud defnydd da o adnoddau ac i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg. Rydym hefyd wedi pwysleisio gofyniad ar archwilwyr i fabwysiadu dull gweithredu cymesur mewn meysydd penodol eraill, megis wrth ystyried a phrosesu gohebiaeth gan y cyhoedd (paragraffau 47 a 57(f), a pharagraff 7 yn Atodlen 2).

b **Gofyniad penodol ar gyfer cymhwyso amheuaeth broffesiynol** - mae hwn yn ofyniad allweddol sydd bellach yn cael ei bwysleisio mewn safonau proffesiynol. Mae amheuaeth broffesiynol yn sylfaenol i archwilio o ansawdd da ac mae bellach o bwysigrwydd hyd yn oed yn fwy gyda dechreuadau cymhwyso deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i gyfrifyddu a chyllid. Felly, mae'n briodol bod yr angen am amheuaeth broffesiynol yn cael ei adlewyrchu'n benodol yn egwyddorion archwilio cyhoeddus a nodir yn y Cod (paragraff 18).

c **Cryfhau'r darpariaethau ar annibyniaeth** - mae cymharu'r Cod presennol â'r fersiwn ddiweddaraf o Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol yn dangos bod angen rhoi mwy o bwyslais ar warchod annibyniaeth archwilio. Felly, er enghraifft, mewn perthynas â chysylltiadau archwilio â rheoleiddwyr rydym wedi cynnwys gofyniad i hyn gael ei wneud yn amodol ar ofynion proffesiynol a moesegol (**paragraff 21**).

3 Mae newidiadau eraill yn cynnwys y canlynol:

a cynnwys gofynion i gydymffurfio â'r Safon Foesegol yn achos gwaith sy'n hwyluso cymharu perfformiad ac adnabod arfer da (paragraff 22(f)), mewn perthynas ag arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru (paragraff 6 o Atodlen 1), sy'n darparu cyngor a chymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (paragraff 9 o Atodlen 1), datgelu gwybodaeth astudio mewn perthynas â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (paragraff 11 o Atodlen 1) a chyfeirio materion nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol (paragraff 13 o Atodlen 1);

b eglurhad o'r gofynion ar gyfer perfformiad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys egluro y dylai ymgysylltu â phersonau sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig fod yn gymesur, ac y dylai archwilwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag anableddau (paragraffau 23 a 56);

c diweddaru disgrifiad o'r cyrff lle mae dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun o ran trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwerth am arian er mwyn peidio ag eithrio Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru (paragraffau 27, 33 a 34);

ch cymhwyso'r gofynion sy'n berthnasol i adroddiadau archwilio ac archwilio gwerth am arian i adroddiadau eraill, megis adroddiadau budd y cyhoedd, er mwyn sicrhau ansawdd cyson o adrodd (paragraffau 34 a 44);

d dileu gofyniad aneglur i archwilwyr gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy—caiff hwn ei ddisodli gan ofyniad mwy penodol i archwilwyr ei ystyried wrth ddylunio cyfleoedd astudiaethau i fodloni neu gefnogi dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o ran archwiliadau datblygu cynaliadwy (paragraff 54(f), yn ogystal ag ystyried cyfleoedd mewn perthynas â boddhad o ran trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwerth am arian, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, y ddyletswydd bioamrywiaeth a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (paragraffau 54(g) a 54(h)—mae'r newidiadau hyn hefyd yn cynyddu manteision astudiaethau;

dd adolygu gofynion cynllunio archwilio ac astudio gwerth am arian er mwyn caniatáu i astudiaethau wneud argymhellion ar gyfer gwella trefniadau heb ddatblygu dulliau o reidrwydd i bennu i ba raddau y gellir gwella gwerth am arian—yn aml nid yw pennu maint y fath welliant yn ymarferol felly mae'r gofyniad hwnnw'n gyfyngiad diangen ar ddisgresiwn (paragraff 55);

e adolygu gofynion mewn perthynas â dod i gasgliadau ar ddiwedd gwaith maes er mwyn cyfyngu'r opsiwn o gyflwyno canfyddiadau ffeithiol yn unig i archwiliadau neu astudiaethau a wneir o dan swyddogaethau lle mae cyflwyniad o'r fath yn gydnaws â'r swyddogaethau hynny (paragraff 59(a));

f adolygu gofynion mewn perthynas â dod i gasgliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ystyried cadernid yn hytrach na chysondeb yn unig (paragraff 59(b));

ff diweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn statud, megis drwy ddileu cyfeiriadau diangen at Awdurdodau Gwella Cymru mewn perthynas ag astudiaethau ac adlewyrchu'r newid arfaethedig i gylch etholiadol y Senedd mewn perthynas ag archwiliadau datblygu cynaliadwy (paragraff 62);

g diweddaru mewn perthynas ag enw a gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth, ac i egluro nad yw cefnogaeth yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor wedi'i gyfyngu i gyngor ar waith archwilio (paragraff 1 i 2 o Atodlen 1);

ng cynnwys arolygiadau arbennig o dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o fewn cwmpas y Cod ar sail wirfoddol (paragraff 2(b) yn Atodlen 3).

4 Efallai y bydd darllenwyr yn ymwybodol, ym mis Medi 2024, fod Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU wedi cyhoeddi cod ymarfer archwilio diwygiedig, a ddaeth i rym ar 14 Tachwedd 2024 ac sy'n berthnasol i archwiliad llywodraeth leol a'r GIG yn Lloegr. Mae'r newidiadau hynny yn y cod yn ymwneud yn bennaf â chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r oedi mewn archwilio cyhoeddus lleol yn Lloegr, ac maent yn gysylltiedig â newidiadau mewn deddfwriaeth, yn enwedig darparu "dyddiadau olaf un" ar gyfer blynyddoedd penodol. Mae hyn yng nghyd-destun dim ond 12% o gyrff llywodraeth leol Lloegr (heb gynnwys y rhai sy'n cyfateb i gynghorau tref a chymuned a chyrff bach eraill) yn derbyn barn archwilio mewn pryd i gyhoeddi datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer 2021-22 erbyn 30 Tachwedd 2022.

5 Er bod Archwilio Cymru hefyd wedi gorfod ymdrin ag ôl-groniad o archwiliadau, yn enwedig mewn perthynas â chyrff bach fel cynghorau cymuned, nid yw'r sefyllfa gyda phrif gynghorau yr un mor bryderus ag y mae yn Lloegr. Yng Nghymru, cwblhawyd pob un ond 2 o ddatganiadau ariannol 2021-22 prif gynghorau o fewn yr amserlenni statudol. Felly nid oes unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth archwilio llywodraeth leol yng Nghymru o ran dyddiadau olaf un, na newidiadau arfaethedig i'r Cod sy'n gysylltiedig â dyddiadau o'r fath.

6 Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyda chynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn destun pryder. O ran cyfrifon ar gyfer 2021-22, ni gwblhawyd 728 allan o 735 (99%) o archwiliadau cynghorau tref a chymuned o fewn yr amserlenni statudol. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof y cyd-destun bod cyfanswm gwariant blynyddol cynghorau o'r fath yn llai na £0.06 biliwn, tra bod cyfanswm gwariant blynyddol prif gynghorau tua £8.5 biliwn.

7 Bu llawer o resymau am yr oedi, ond y rhai mwyaf cyffredin (yn berthnasol mewn 457 achos, 62%) oedd y ffaith na wnaeth cynghorau tref a chymuned ddarparu datganiadau ariannol i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau statudol (30 Mehefin 2022). Yn ogystal, nid oedd llawer o gynghorau tref a chymuned a ddarparodd ddatganiadau ariannol erbyn y dyddiad cau yn darparu cofnodion cyfrifyddu sylfaenol a gwybodaeth sylfaenol angenrheidiol erbyn y dyddiad cau. Mewn perthynas â'r achosion hyn, nid yw'r broblem o oedi gydag archwiliadau cynghorau tref a chymuned yn rhywbeth y gellir mynd i'r afael ag ef trwy newidiadau i'r Cod.

8 Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, gellir priodoli rhywfaint o oedi i waith ychwanegol sy'n ofynnol i fynd i'r afael â phryderon, megis gwrthwynebiadau i eitemau cyfrif a godir gan etholwyr, neu faterion eraill a godir gan aelodau'r cyhoedd. Er bod mynegi pryderon o'r fath mewn llawer o achosion yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr i lywio'r broses archwilio, mewn achosion eraill gall materion bach neu amherthnasol gymryd cryn amser. Felly, rydym wedi achub ar y cyfle i gynnig rhai newidiadau i'r Cod i bwysleisio'r angen penodol i gymryd ymagwedd gymesur o ran gohebiaeth gan y cyhoedd ac arfer y swyddogaethau canlynol:

a y ddyletswydd i roi cyfle i etholwyr llywodraeth leol godi cwestiynau am y cyfrifon;

b y ddyletswydd i ystyried a phenderfynu ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cyfrifon;

c y pŵer i wneud cais i'r llys am ddatganiad bod eitem o gyfrif yn groes i'r gyfraith;

ch y pŵer i ystyried a ddylid dyroddi, ac os yw'n briodol i ddyroddi hysbysiad cynghori, neu i wneud cais am adolygiad barnwrol; ac

d y ddyletswydd i ystyried a ddylid adrodd am faterion er budd y cyhoedd.

9 Yn unol â mwy o bwyslais ar gymesuredd ac effeithlonrwydd, rydym wedi manteisio ar y cyfle i egluro a byrhau testun y Cod. Rydym wedi dileu ailadrodd diangen a disgrifiadau gormodol o ofynion statudol, ac rydym wedi rhesymoli trefn rhai o'r testun. Ar y cyfan, mae'r Cod wedi'i ddiweddaru arfaethedig bron 10% yn fyrrach na'r Cod presennol. Mae'r newidiadau hyn ar eu pen eu hunain yn weddol fach, ond maent yn effeithio ar lawer o'r testun, sy'n rhwystro darparu testun hawdd ei dreulio. Er mwyn helpu i ganolbwyntio ar newidiadau sylweddol, rydym wedi tynnu sylw at newidiadau o'r fath drwy eu cysgodi.

10 At ei gilydd, mae'r newidiadau a gynigir i'r Cod nid yn unig yn adlewyrchu datblygiadau mewn safonau proffesiynol ond hefyd yn annog dull mwy cost-effeithiol.

## Cwestiynau ymgynghori

11 Byddem â diddordeb yn eich barn ar y bwriad i ddiweddaru'r Cod. Er mwyn helpu i hwyluso'r broses ymgynghori, efallai y byddai'n ddefnyddiol ystyried y cwestiynau canlynol:

C1 A ydych yn cytuno â'r pwyslais cyffredinol cynyddol ar gymesuredd mewn perthynas â gwaith archwilio?

C2 A ydych yn cytuno â'r gofyniad diamwys newydd i archwilwyr gymhwyso amheuaeth broffesiynol yn eu gwaith?

C3 A ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau cryfach ar gyfer annibyniaeth?

C4 A ydych yn cytuno â'r pwyslais penodol ar gymesuredd ac effeithlonrwydd mewn perthynas ag ymdrin â gohebiaeth gan y cyhoedd a'r swyddogaethau cysylltiedig o roi cyfle i etholwyr ofyn cwestiynau ac ystyried gwrthwynebiadau?

C5 A oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig eraill i'r Cod?

C6 A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch a allai unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig i'r Cod effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig neu a ydych yn dymuno tynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl eraill ar gydraddoldeb?

C7 A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch a allai unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig i'r Cod effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu effeithio ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

C8 Sut ydych chi'n meddwl y gellid diwygio'r Cod fel na fyddai'n cael unrhyw effeithiau andwyol neu lai ac effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

12 Rydym yn edrych ymlaen at gael eich barn ar y cynigion.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

# Cod Ymarfer Archwilio Drafft

## Mae'r Cod hwn yn rhagnodi sut y dylid cyflawni fy swyddogaethau archwilio a swyddogaethau eraill.

1 Fi yw archwilydd allanol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae Archwilio yn archwilio'r defnydd[1] o arian cyhoeddus ar ran y Senedd a phobl Cymru er mwyn galluogi'r llywodraeth i gael ei dwyn i gyfrif.

2 Mae Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, ynghyd ag amrywiaeth o ddeddfau eraill gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn darparu'r sail statudol i fy ngwaith. Ceir rhagor o wybodaeth yn 'Canllawiau ar ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru'.

3 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi bod yn rhaid i mi gyhoeddi cod ymarfer archwilio sy'n rhagnodi sut y dylai fy swyddogaethau archwilio (a swyddogaethau penodol eraill) gael eu cyflawni. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'm cod ymgorffori'r hyn sy'n ymddangos i mi fel yr arfer proffesiynol gorau. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio (y Cod) hwn wedi'i gynllunio i gyflawni'r diben hwnnw ac yn disodli'r Cod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

4 Gall y swyddogaethau y mae'r Cod hwn yn sôn amdanynt gael eu cyflawni gennyf i neu gellir eu dirprwyo i eraill[2].

5 Mae'r term 'archwilwyr', fel y'i defnyddir yn y Cod hwn, yn berthnasol i:

a mi, fel Archwilydd Cyffredinol;

b cyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gweithio i gyflawni fy swyddogaethau archwilio;

c unrhyw unigolyn y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gontractio i gyflawni swyddogaethau o'r fath.

1 I fod yn gryno, rydym yn defnyddio "defnydd", ond dylid darllen hwn fel rhywbeth sy'n cynnwys pob agwedd ar stiwardiaeth, h.y. nid gwariant yn unig, ond hefyd materion fel dal asedau.

2 O dan Ddeddf 2013, mae'n rhaid i mi baratoi cynllun er mwyn dirprwyo'n llwyr neu'n rhannol unrhyw rai o'm swyddogaethau i weithiwr cyflogedig Swyddfa Archwilio Cymru neu unigolyn sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru.

6 Rhaid i archwilwyr gymhwyso egwyddorion a gofynion y Cod hwn i'w gwaith, ac yn y broses, gymhwyso eu barn broffesiynol.

7 *[Bydd y Cod terfynol a gyhoeddir yn nodi ei fod wedi'i ddatblygu yn dilyn ymgynghoriad a'i fod yn dod i rym mewn perthynas ag unrhyw archwiliad ar ddechrau'r archwiliad hwnnw yn dilyn cyhoeddi'r Cod.]*

8 Mae Atodlen 1 o'r Cod hwn yn rhagnodi'r ffordd y dylai swyddogaethau penodol sy'n gysylltiedig ag archwilio a swyddogaethau nad ydynt yn rhai archwilio, gael eu cyflawni. Mae rhai o'r swyddogaethau hyn wedi'u cynnwys fel y'u nodir gan Ddeddf 2013, ac mae rhai wedi'u cynnwys oherwydd ystyriaf ei bod yn briodol eu cynnwys.

9 Mae Atodlen 2 i'r Cod hwn yn rhagnodi'r ffordd y caiff archwilio cyrff bach ei gynnal.

10 Mae Atodlen 3 i'r Cod hwn yn amlinellu'r swyddogaethau y mae darpariaethau'r Cod hwn yn berthnasol iddynt ar sail statudol, a byddaf yn cymhwyso darpariaethau'r Cod i swyddogaethau o'm dewis i.

11 O bryd i'w gilydd, byddaf yn cyhoeddi canllawiau atodol i archwilwyr ar sut i ddefnyddio'r Cod hwn, gan gynnwys trefniadau ar gyfer asesu cydymffurfiaeth â'r Cod hwn.

# Diben archwilio'r sector cyhoeddus yw adrodd ar y defnydd o arian cyhoeddus

12 Mewn democratiaeth, mae'r llywodraeth yn atebol i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig, gan gynnwys y defnydd o arian cyhoeddus.

13 Mae angen archwiliad annibynnol o weithgareddau'r llywodraeth a'r defnydd o gronfeydd cyhoeddus i hysbysu'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr i gefnogi atebolrwydd democrataidd. Mae archwilwyr allanol y sector cyhoeddus yn archwilio a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a sicrhau bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano. Fel gyda'r rhan fwyaf o archwilio cyfrifon, mae archwiliad allanol y sector cyhoeddus fel arfer yn cynnwys rhoi barn ar wirionedd a thegwch y cyfrifon, ond fel arfer mae hefyd yn cynnwys un neu fwy o'r canlynol:

a rheoleidd-dra - a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy;

b priodoldeb - a yw busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n bodloni disgwyliadau'r Senedd[3] a'r cyhoedd;

c gwerth am arian – bod arian yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol, gan gynnwys mewn perthynas ag amcanion polisi – neu fel arfer o leiaf drefniadau corff cyhoeddus i sicrhau gwerth am arian[4].

14 Yn y rhan fwyaf o agweddau, nid yw'n rhan o'm swyddogaethau i gwestiynu rhinweddau polisi'r llywodraeth, ond efallai y byddaf yn edrych ar y trefniadau y gwneir penderfyniadau polisi yn eu cylch ac ystyried effeithiau deddfwriaeth a chanllawiau, a gweithredu polisi.

3 Mae disgwyliadau seneddol yn cynnwys disgwyliadau Senedd Cymru.

4 Mae gofynion i'r archwilydd fod yn fodlon bod trefniadau priodol wedi'u gwneud gan gorff cyhoeddus ar goll o'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth archwilio llywodraeth ganolog, gan gynnwys yr un sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau dewisol i archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau'r llywodraeth ganolog.

15 Fodd bynnag, ni all archwilio allanol ddisodli cyfrifoldebau llywodraethau a chyrff cyhoeddus eraill. Nid yw'n disodli'r angen i gyrff cyhoeddus gael cyngor cyfreithiol neu gyngor proffesiynol arall a rhoi trefniadau rheoli mewnol effeithiol ar waith, gan gynnwys trefniadau ar gyfer archwilio mewnol[5]. Y cyrff cyhoeddus eu hunain sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol[6].

## Mae fy ngwaith archwilio yn seiliedig ar bedair egwyddor – canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur ac yn atebol

16 Ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol penodol, mae fy ngwaith archwilio yn seiliedig ar bedair egwyddor gydnabyddedig. Rhaid i archwilwyr gyflawni eu gwaith yn gyson yn unol â'r egwyddorion hyn.

### Canolbwyntio ar y cyhoedd

17 Cyflawnir archwiliad allanol y sector cyhoeddus ar ran y cyhoedd ac er budd y cyhoedd. Mae'n hanfodol er mwyn dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif ac felly mae'n cynnwys ystyriaethau ychwanegol, fel rheoleidd-dra trafodiadau. Felly, mae cwmpas archwiliad sector cyhoeddus yn ehangach na chwmpas y sector preifat. Mae buddiannau'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr yn hollbwysig yn y gwaith archwilio hwn, a dylid felly eu cynnwys gyda'i brosesau. Rhaid i allbynnau gwaith archwilio'r sector cyhoeddus roi digon o sylw i brif feysydd gwariant a risg, a rhaid iddynt fod yn hygyrch ac yn amserol.

### Bod yn annibynnol

18 Rhaid i bob gwaith archwilio fod yn annibynnol ac yn cael ei weld felly. Rhaid cyflawni'r gwaith ag uniondeb ac mewn ffordd wrthrychol a diduedd. Felly, mae'n rhaid ei gyflawni yn unol â safonau ac ystyriaethau moesegol perthnasol, a gydag amheuaeth broffesiynol. Ni ddylai archwilwyr gael eu cyfyngu gan unrhyw fudd penodol wrth gyflawni eu gwaith. Dylai archwilwyr gyflwyno adroddiadau'n gyhoeddus heb ddangos ffafriaeth nac ofni'r goblygiadau.

5 Dylai swyddogaeth archwilio mewnol corff cyhoeddus gyflawni gweithgareddau sicrwydd ac ymgynghori gyda'r nod o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y corff hwnnw.

6 Am ragor o wybodaeth, gweler *Datganiadau o Gyfrifoldeb* yr Archwilydd Cyffredinol ar ein gwefan.

### Bod yn gymesur

19 Mae angen digon o le ar lywodraeth a darparwyr gwasanaethau eraill i gyflawni. Mae angen iddynt fod yn destun craffu i raddau digonol ond nid gormodol. Mae sicrhau'r cydbwysedd hwn yn rhan bwysig o ddyfarniadau archwilwyr wrth bennu natur, cwmpas, maint a hyd gwaith archwilio. Pan ganiateir hynny drwy statud, er mwyn gwneud defnydd da o adnoddau, rhaid i archwilwyr fabwysiadu dull gweithredu yn seiliedig ar risg. Er bod yn rhaid i archwilwyr ymgymryd â thasgau penodol, gan gynnwys cael yr wybodaeth a'r esboniadau angenrheidiol er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol, nid oes disgwyl i archwilwyr adolygu pob agwedd ar drefniadau, systemau neu gofnodion cyrff a archwilir. O ran cymesuredd, rhaid i'r archwilwyr ystyried goblygiadau ymarferol ac adnoddau unrhyw argymhellion y maent yn eu datblygu o'u gwaith.

### Bod yn atebol

20 Mae archwilwyr y sector cyhoeddus yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus a nhw sy'n gyfrifol am stiwardiaeth yr adnoddau a ddarperir iddynt. Rhaid iddynt gyflawni eu gwaith yn unol â safonau rhyngwladol a chenedlaethol[7] a, lle bo'n berthnasol, rhaid iddynt weithio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Rhaid i archwilwyr ddarparu gwybodaeth am weithgarwch archwilio, yn unol â'r fframwaith cyfreithiol a moesegol, fel bod y cyhoedd a chyrff archwiliedig yn deall y rheswm wrth wraidd y gwaith archwilio.

## Mae'r Cod hwn yn rhagnodi sut y dylai archwilwyr gyflawni fy swyddogaethau

21 Yn ogystal â dilyn y pedair egwyddor a nodir yn y Cod hwn, rhaid i'r archwilwyr gydymffurfio â'r gofynion canlynol wrth gyflawni eu gwaith:

- a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnal yn unol â'r safonau ansawdd a nodaf mewn canllawiau o bryd i'w gilydd;
- b cydymffurfio â safonau moesegol sydd ar waith ac sy'n berthnasol yn fy marn i;
- c ystyried blaenoriaethau ac amcanion strategol fy nghynllun blynyddol a chanllawiau a chyngor pellach a ddarperir gennyf i;
- ch cysylltu'n effeithiol, cyhyd ag sy'n gydnaws â safonau proffesiynol a moesegol, â rheoleiddwyr, arolygwyr ac unrhyw swyddogaethau archwilio mewnol perthnasol.

7 Dyma'r Safonau Moesegol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ac, yn achos gwaith y tu hwnt i archwilio datganiadau ariannol, megis archwiliadau gwerth am arian, y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Sefydliadau Archwilio Goruchaf (ISSAIs).

22 Mae'n rhaid i archwilwyr hefyd gyflawni'r canlynol:

a Cynllunio eu gwaith a chadw cofnod o'r cynlluniau hynny, gan gynnwys sicrhau:

i bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r swyddogaeth y maent yn ei harfer;

ii meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o'r ddeddfwriaeth, polisïau, canllawiau a modelau llywodraethu sy'n berthnasol i'r cyrff y maent yn eu harchwilio; a

iii lle mae'r swyddogaeth sy'n cael ei harfer yn arwain at adroddiad, dewis neu gynllunio dulliau archwilio sy'n darparu tystiolaeth berthnasol a dibynadwy ddigonol i ddarparu adroddiad.

b trafod gyda'r cyrff a archwilir perthnasol y gwaith archwilio a gynlluniwyd gyda'r cyrff a archwilir perthnasol ar gam cynnar, lle mae hyn yn gydnaws â dibenion y gwaith - dylai'r drafodaeth hon egluro'r materion a'r risgiau sy'n berthnasol i'r archwiliad, a'r costau[8] a ragwelir - fel y gall y cyrff archwiliedig hwyluso archwiliad effeithlon, er enghraifft, trwy ddarparu'r wybodaeth ofynnol yn llawn ac yn brydlon;

c sicrhau bod yr holl ddata a dderbynnir neu a geir yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill o ran casglu a phrosesu gwybodaeth;

ch hysbysu trydydd, partïon yr effeithir yn berthnasol o bosibl ar eu hawliau a'u buddiannau gan waith sydd i'w gynnal, o'r agweddau hynny sy'n debygol o effeithio arnynt cyn belled ag y bo'n rhesymol amlwg;

d adolygu cynlluniau gwaith drwy gydol yr archwiliad a'u diweddaru yn ôl yr angen;

dd ceisio, lle bo'n gydnaws â dibenion y gwaith a'r Safon Foesegol, gael gwybodaeth sy'n hwyluso cymariaethau perfformiad a nodi arfer da, gyda'r bwriad o rannu'r rhain i gefnogi gwelliant mewn darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan gynnwys, er enghraifft, ansawdd gwasanaeth;

8 Rhaid codi ffioedd am waith archwilio yn unol â chynllun a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'i gymeradwyo gan y Senedd. Gall rhywfaint o waith gael ei ariannu drwy gyflenwad (cynnig cyllideb y Senedd), sydd hefyd wedi'i gymeradwyo gan y Senedd.

e gwneud ymdrechion cymesur a rhesymol i ddod ag argymhellion a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio (ac adroddiadau o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd) i sylw personau perthnasol, er enghraifft, mewn diweddariadau i bwyllgorau archwilio lleol neu eu cyfwerth;

f cydymffurfio â dyletswyddau eraill sy'n berthnasol wrth arfer fy swyddogaethau, gan gynnwys cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus[9], gweithredu'n gyson â hawliau dynol[10], peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a cheisio cynnal a gwella bioamrywiaeth.

23 Er mwyn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid i archwilwyr gyflawni'r canlynol:

a Ymgynghori'n gymesur â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys ymgysylltu â phersonau sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ar sut i gyflawni'r ddyletswydd hon wrth gynllunio a dylunio gwaith archwilio sy'n berthnasol i randdeiliaid o'r fath;

b gwneud addasiadau a goddefiadau rhesymol ar gyfer anghenion pobl sy'n gysylltiedig â gwaith archwilio neu yr effeithir arnynt gan waith archwilio, megis pobl ag anableddau a gyflogir gan gyrff archwiliedig;

c cyhoeddi allbynnau archwilio ar ffurf ac arddull sy'n cydymffurfio â safonau hygyrchedd priodol;

ch adrodd ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth pan fo'n berthnasol ac yn gydnaws â gwaith archwilio;

d cefnogi cyrff cyhoeddus eraill wrth iddynt graffu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, pan fo cefnogaeth o'r fath yn gydnaws â gwaith archwilio a'r Safon Foesegol.

24 Mae gen i hawliau cyfreithiol eang mewn perthynas â mynediad at wybodaeth a dogfennau. Mae'r hawliau hynny'n bwysig ar gyfer arfer fy swyddogaethau'n briodol. Rhaid i archwilwyr fynd ati'n drylwyr i orfodi hawliau o'r fath, gan fod atal hawliau mynediad yn llyffetheirio eu gallu i gyflawni eu gwaith archwilio yn iawn ac yn cynyddu costau'r gwaith hwnnw.

9 Fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010: wrth arfer swyddogaethau i roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da.

10 Mae dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru i amddiffyn hawliau'r Erthygl o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a gyflwynwyd i gyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

25 I osgoi unrhyw gamddealltwriaeth posibl pan yr ymddengys fod hawliau mynediad yn cael eu hatal, rhaid i'r archwilwyr esbonio'r hawliau perthnasol i'r unigolyn dan sylw. Os bydd yr unigolyn yn parhau i geisio atal mynediad ar ôl hyn, rhaid i archwilwyr, lle rwyf o'r farn fod hynny'n briodol, gymryd camau cyfreithiol er mwyn cael gafael ar y dogfennau perthnasol ac adennill unrhyw gostau cysylltiedig.

26 Mae'n ofynnol i mi roi gwybod i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol[11] am unrhyw achosion neu amheuon o drafod enillion troseddau neu ariannu terfysgol (gwyngalchu arian) y deuwn ar eu traws yn ystod ein gwaith. Er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiad â'r ddyletswydd hon, rhaid i archwilwyr, drwy gydol eu gwaith, gadw meddwl agored i'r posibilrwydd y bydd unigolion yn trafod enillion troseddau ac adrodd am unrhyw wybodaeth neu amheuon i Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian Archwilio Cymru. Rhaid i archwilwyr hefyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion adrodd penodol eraill[12].

## Gofynion o ran swyddogaethau penodol

### Boddhad o ran trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

27 Lle mae'n ofynnol i mi fod yn fodlon bod corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ('gwerth am arian') wrth ddefnyddio adnoddau, er mwyn fy ngalluogi i ddod i'r casgliad ar foddhad o'r fath, rhaid i archwilwyr ddatblygu rhaglen waith flynyddol at y diben hwnnw ym mhob corff. Rhaid i'r rhaglen fod yn gymesur ac yn seiliedig ar asesiad o'r risgiau nad yw'r corff yn gwneud trefniadau priodol, gyda'r gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd risg mwyaf.

28 Rhaid i'r rhaglen gynnwys adolygu dyluniad trefniadau sylweddol i sicrhau gwerth am arian, a, lle bo'n briodol, o ystyried yr asesiad risg, profi effeithiolrwydd gweithredu'r trefniadau hynny. Gan y gall profion mewn blwyddyn fod yn berthnasol parhaus i asesu risg a gwaith adolygu arall, gall dyfnder y sylw amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

11 O dan Reoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgaeth a Throsglwyddo Cronfeydd (Gwybodaeth am y Talwr) 2017.

12 Fel y rhai sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011.

29 Wrth ddylunio'r rhaglen, rhaid i archwilwyr ystyried trefniadau corfforaethol a lefel gwasanaeth, gan gynnwys cynllunio strategol, cynllunio ariannol, perfformiad a rheoli risg, cynllunio'r gweithlu, rheoli asedau, cydweithio a llywodraethu cyffredinol.

30 Wrth adolygu'r trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, rhaid i archwilwyr roi sylw arbennig i arferion llywodraethu a rheoli da, a rhaid i archwilwyr ddilyn unrhyw ganllawiau ychwanegol y gallaf eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.

31 I'r graddau eu bod yn berthnasol i drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, rhaid i'r archwilwyr roi sylw i'r canlynol:

a canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys gwaith cysylltiedig, megis adolygu'r datganiad llywodraethu blynyddol a gohebiaeth ynghylch y corff archwiliedig;

b canlyniadau gwaith arall y gallaf ei wneud, gan gynnwys arholiadau ac astudiaethau gwerth am arian, arholiadau egwyddor datblygu cynaliadwy (o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), ardystio hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;

c canlyniadau gwaith archwilio mewnol a chyrff adolygu allanol lle bo hynny'n briodol;

ch canfyddiadau fy ngwaith mewn blynyddoedd blaenorol lle mae hynny'n parhau'n berthnasol; a

d unrhyw waith arall sy'n mynd i'r afael â materion nad ydynt yn cael sylw gan yr uchod, ac y mae archwilwyr yn credu sy'n angenrheidiol i mi gyflawni fy nghyfrifoldebau

32 Lle bo'n gydnaws â gofynion statudol a phroffesiynol, wrth ymgymryd â gwaith i archwilio trefniadau, byddaf yn ceisio ei integreiddio â gwaith arall o'r mathau a restrir uchod.

33 Dylid cynllunio gwaith archwilwyr i roi sicrwydd digonol i'm galluogi i fodloni fy hun ym mhob ffordd arwyddocaol fod, lle bo'n berthnasol, cyrff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

34 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed, byddaf yn adrodd ar fy nghasgliadau ar bob corff bob blwyddyn, gydag adroddiadau sylweddol ar wahân lle ceir materion nodedig. Wrth wneud adroddiad sylweddol, mae gofynion **paragraffau 59 a 60** o'r Cod hwn yn berthnasol i adroddiad o'r fath.

## Archwilio cyfrifon

35 Mae adroddiadau archwilio ar gyfrifon yn cynnwys barn ar y canlynol:

a a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o faterion ariannol y corff[13];

b a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu; a

c rheoleidd-dra[14] trafodion cyrff sy'n destun craffu gan y Senedd drwy rinwedd eu cyfrifon (neu gyfrifon eu rhiant gorff) a osodir gerbron y Senedd.

36 Wrth gynnal gwaith ar fy rhan, rhaid i archwilwyr gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol sydd mewn grym[15], fel yr hysbysir gennyf mewn canllawiau fel rhai sy'n ymddangos yn berthnasol i mi. Rhaid i archwilwyr hefyd ystyried canllawiau a chyngor cysylltiedig a gyhoeddir gennyf i, neu ar fy rhan.

37 Ac eithrio cyrff a gwmpesir gan Atodlen 2 i'r Cod hwn, rhaid i archwilwyr gynnal eu gwaith fel y gallaf roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol cysylltiedig yn:

a rhydd o gamddatganiadau perthnasol, a achoswyd gan dwyll neu wall;

b cydymffurfio â gofynion statudol a'r gofynion cymwys eraill, yn cynnwys rheoleidd-dra trafodion mewn cyrff lle bo hyn yn ofynnol;

c bodloni'r holl ofynion cyflwyno a datgelu perthnasol o ran cyfrifyddu.

38 Ar gyfer cyrff a gwmpesir gan Atodlen 2 i'r Cod hwn, rhaid i archwilwyr gynnal eu gwaith yn unol â'r Atodlen honno.

13 Ar gyfer cyrff sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau, ac yn achos Cronfa Gyfunol Cymru, sydd hefyd yn gyfrif derbynebau a thaliadau, y farn yw a yw'r cyfrifon yn cyflwyno'r derbynebau a'r taliadau yn gywir.

14 Gweler **paragraffau 39 a 40**

15 Gan gynnwys y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio a safonau eraill a gydnabyddir yn rhyngwladol.

39 Pan fo cyrff yn destun craffu gan y Senedd drwy rinwedd gosod eu cyfrifon (neu gyfrifon eu rhiant gorff) gerbron y Senedd, rhaid i archwilwyr gynllunio a chynnal gwaith archwilio ar fy rhan er mwyn mynd i'r afael â rheoleidd-dra a chaniatáu i mi roi barn ar reoleidd-dra'r trafodion y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw. Rheoleidd-dra, fel y nodir yn 'Nodyn Ymarfer 10: Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig' a gyhoeddwyd gan y Fforwm Archwilio Cyhoeddus a'i gymeradwyo gan y Cyngor Adrodd Ariannol, yw'r cysyniad bod yn rhaid i drafodion a adlewyrchir yn natganiadau ariannol endid a archwilir fod yn unol â fframwaith perthnasol awdurdodau. Mae'r fframweithiau o'r fath yn cynnwys:

a deddfwriaeth awdurdodi;

b awdurdodau'r Senedd, fel cynigion cyllidebol a basiwyd gan y Senedd;

c awdurdodau gweinyddol, fel dirprwyaethau, a chanllawiau, fel cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.

40 Mae darparu'r farn ar reoleidd-dra yn bwysig i reolaeth ddemocrataidd cyllid cyhoeddus. Un o swyddogaethau allweddol y Senedd yw cymeradwyo, yn dilyn craffu, gynigion cyllidebol i awdurdodi Lywodraeth Cymru a chyrff eraill i ddefnyddio adnoddau cyhoeddus. Er mwyn cwblhau'r cylch o reolaeth, mae'n angenrheidiol i'r Senedd dderbyn adroddiadau ynghylch a yw'r adnoddau a bleidleisiwyd ganddi wedi'u defnyddio yn unol â'i fwriadau. Felly, rhaid i farn ar reoleidd-dra trafodion (y farn ar reoleidd-dra) gynnwys gwaith digonol i ddod i gasgliad ynghylch a yw'r trafodion yn unol â fframwaith perthnasol awdurdodau.

41 Rhaid cyflwyno adroddiadau ar gynlluniau a chanlyniadau gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol drwy allbynnau priodol, megis:

a dogfen cynllunio archwilio;

b adroddiadau neu femoranda llafar ac ysgrifenedig i unigolion priodol ar ganlyniadau, neu faterion sy'n codi o agweddau penodol ar y gwaith;

c adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n crynhoi fy nghanfyddiadau a'm casgliadau;

ch adroddiad archwilio gan gynnwys fy marn ar y datganiadau ariannol;

d ardystio bod archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau yn unol â gofynion statudol;

dd adroddiad sylweddol cysylltiedig os yw fy marn archwilio yn amodol[16] neu os wyf am gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater.

42 Rhaid i archwilwyr arfer swyddogaethau archwilio er mwyn galluogi'r gwaith o gyflwyno allbynnau pellach yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, fel:

a adroddiadau a wneir er budd y cyhoedd;

b datganiadau rhesymau yn dilyn gwrthwynebiadau a wneir gan etholwyr awdurdodau lleol;

c adborth ar sail eithriad lle mae unrhyw elfen o'r wybodaeth a adolygwyd yn dynodi methiannau sylweddol i gynnal Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu i weithredu'n gyson â hawliau dynol.

43 Rhaid i archwilwyr weithio i'm cynorthwyo yn fy nyletswydd i ystyried a ddylid cyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd i dynnu sylw'r cyhoedd at amgylchiadau lle, yn fy marn i, mae corff cyhoeddus wedi camwario symiau sylweddol o arian, lle mae ganddo drefniadau llywodraethu gwael neu lle mae corff cyhoeddus wedi gweithredu y tu hwnt i'w bwerau a'i ddyletswyddau.

44 Pryd gwneir adroddiad sylweddol ar archwilio cyfrifon, neu er budd y cyhoedd am unrhyw reswm, mae gofynion paragraffau 59 a 60 o'r Cod hwn yn berthnasol.

16 Yn hytrach na barn ddiamod, a gaiff ei mynegi pan fo'r archwilydd yn barnu bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg, yn cael eu cyflwyno'n briodol neu'n deg (fel y bo'n briodol), ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol cymwys.

## Arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau wrth archwilio cyrff llywodraeth leol

45 Wrth archwilio cyrff llywodraeth leol, mae gennyf y swyddogaethau ychwanegol canlynol:

a y ddyletswydd i roi cyfle i etholwyr llywodraeth leol godi cwestiynau am y cyfrifon;

b y ddyletswydd i ystyried a phenderfynu ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cyfrifon;

c y pŵer i wneud cais i'r llys am ddatganiad bod eitem o gyfrif yn groes i'r gyfraith;

ch y pŵer i ystyried p'un ai i ddyroddi, ac os yw'n briodol i ddyroddi hysbysiad cynghori neu i wneud cais am adolygiad barnwrol;

d y ddyletswydd i ystyried a ddylid adrodd am faterion er budd y cyhoedd.

46 Rhaid cymryd gofal penodol i arfer y swyddogaethau hyn yn gymesur, fel sy'n ofynnol gan baragraff 19, yn ogystal ag mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol. Dylai archwilwyr ystyried arwyddocâd y materion a godwyd yng nghyd-destun y symiau dan sylw a maint y corff archwiliedig dan sylw i sicrhau bod eu gwaith yn gymesur ac er budd y cyhoedd.

## Gohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â buddiant

47 Ar draws yr ystod lawn o gyrff archwiliedig, gall aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill â buddiant ysgrifennu at yr archwilydd i godi pryderon. Gall gohebiaeth o'r fath lywio ein gwaith drwy, er enghraifft, nodi materion ar gyfer ymchwilio ymhellach. Fel gyda'r swyddogaethau penodol mewn perthynas â llywodraeth leol a grybwyllir ym mharagraff 45, rhaid i archwilwyr roi ystyriaeth gymesur i faterion perthnasol sy'n peri pryder i'r cyhoedd mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol.

## Ardystio ceisiadau a ffurflenni

48 Os oes corff perthnasol yn gofyn i mi wneud hynny[17], rhaid i mi wneud trefniadau ar gyfer ardystio:

a ceisiadau neu ffurflenni ar gyfer grantiau, cymorthdaliadau neu daliadau contract a dderbyniwyd gan lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus;

b ffurflenni cyfraniadau ardrethi annomestig;

c unrhyw ffurflen arall y mae deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi wneud trefniadau ar ei chyfer (er enghraifft, cyfraniadau pensiwn).

49 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, rhaid i archwilwyr ddarparu un neu'r ddau o'r allbynnau canlynol:

a tystysgrif yn nodi eu casgliad er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol y caiff ceisiadau a ffurflenni grantiau eu datgan yn deg ac yn unol â thelerau ac amodau penodol; neu

b adroddiad naratif o'u canfyddiadau ar ôl cynnal cyfres o weithdrefnau y cytunwyd arnynt gyda'r corff sy'n talu'r grant.

50 Mae'n bosibl nad ardystio fyddai'r dull mwyaf effeithiol o roi sicrwydd. Felly, mae'n rhaid i archwilwyr hysbysu cyrff sy'n talu grantiau na fydd gofyn ardystio ac eithrio le bydd cyfiawnhad clir dros wneud hynny[18], yn hytrach na'i fod yn fater o drefn. Gallaf roi cyngor i gyrff sy'n talu grantiau sy'n gofyn am ardystio ar y dull ar y dull mwyaf effeithiol o gael sicrwydd.

51 Pan fo cyrff sy'n talu grantiau wedi penderfynu bod angen ardystio, rhaid i archwilwyr arfer disgresiwn o ran y ffordd fwyaf priodol o gyflawni eu rhwymedigaethau, ar ôl ystyried:

a amgylchiadau penodol cynllun a'r symiau dan sylw;

b y lefel sicrwydd a geisir a ffynonellau eraill posibl o sicrwydd sydd ar gael;

c cadernid y meini prawf ariannol a darparu gwasanaethau sydd i'w cymhwyso; a

ch natur neu hyd a lled y gwaith angenrheidiol.

17 Diffinnir 'cyrff perthnasol' ym mharagraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ystyr y term yn y bôn yw cyrff sy'n cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol.

18 Mae'r ffactorau allweddol y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a oes cyfiawnhad dros ardystio yn cynnwys cyfanswm gwerth a thelerau ac amodau'r cynllun, lefel y risgiau a'r mathau o risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y prosiect a chostau tebygol gwaith yr archwilwyr.

52 Wrth gynnal gwaith ardystio, rhaid i archwilwyr ddilyn gofynion y Cyfarwyddyd Ardystio y cytunwyd arno gyda'r corff sy'n talu grant. Lle bynnag y bo'n ymarferol, rhaid i archwilwyr gyfuno eu gweithgareddau ardystio â'u harchwiliad o'r cyfrifon a gwaith archwilio gwerth am arian ac astudiaethau.

53 Rhaid i archwilwyr hefyd ystyried a oes unrhyw ran o'r wybodaeth a adolygwyd wrth gynnal y gwaith ardystio yn dynodi methiannau sylweddol i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu ddiogelu hawliau dynol ar ran cyrff gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i archwilwyr roi adborth ar hyn ar sail eithriad, lle bo'n briodol.

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian

54 O ran fy swyddogaethau archwilio a chynnal astudiaethau o ran gwerth am arian, rhaid i archwilwyr ystyried, ymhlith pethau eraill, y canlynol wrth benderfynu pa waith i'w gynnal:

a budd y cyhoedd;

b barn y cyhoedd a'i gynrychiolwyr[19] lle mae'r rhain ar gael ac yn berthnasol;

c maint y materion a'r amgylchiadau a'r risgiau cysylltiedig;

ch a fyddai'r gwaith yn amserol;

d a fyddai'r gwaith yn gymesur ac yn darparu gwerth am arian - a yw'r buddion yn debygol o gyfiawnhau'r gost, gan gynnwys gwerth posibl y gwaith o ran arbedion ariannol, gwella gwasanaethau a gwella trefniadau rheoli neu lywodraethu, ataliaeth ac a yw'n debygol y gellir trosglwyddo gwersi a ddysgir;

dd cyfle priodol i gyflawni neu gefnogi arfer dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, fel archwiliadau datblygu cynaliadwy a boddhad ynghylch trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwerth am arian;

e cyfle priodol i gyflawni dyletswyddau eraill megis dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r ddyletswydd bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, (gweler paragraff 22(h)));

f a fyddai'n ychwanegu gwerth i archwilio'r gwaith o gyflawni dyletswyddau ychwanegol o'r fath sy'n berthnasol i gyrff archwiliedig wrth iddynt arfer swyddogaethau (fel (g) ond hefyd, er enghraifft, dyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010).

19 Gan gynnwys, yn benodol, farn Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd a llywodraeth leol, lle bo hynny'n berthnasol.

55 Ar gyfer unrhyw archwiliad neu astudiaeth benodol, rhaid i archwilwyr ddefnyddio'r dull a ragnodir yn y paragraffau canlynol (56- 57) i ddatblygu dulliau gwaith maes sy'n eu galluogi i benderfynu i ba raddau y mae gwerth am arian wedi'i gyflawni neu y gellir ei wella, neu i ddarparu sylwadau defnyddiol ar drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian. Fel arall, yn achos astudiaethau nad ydynt yn ymwneud â gwerth am arian, rhaid iddynt ddefnyddio'r dull a ragnodir i gynnal dadansoddiad o'r fath sy'n addas i'r diben. Lle y bo'n berthnasol, bydd hyn yn ymestyn i archwilio trefniadau llywodraethu, gan gynnwys unrhyw bartneriaethau darparu gwasanaethau, is-gwmnïau, contractau a threfniadau cydweithio.

56 Rhaid i archwilwyr wneud ymdrechion cymesur i geisio ac ystyried barn pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl â nodweddion gwarchodedig[20], yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, wrth benderfynu pa arholiadau ac astudiaethau i'w cynnal. Wrth benderfynu ar y sylw i unrhyw arholiadau ac astudiaethau sy'n berthnasol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac wrth ddyfeisio gwaith maes ar gyfer prosiectau o'r fath, rhaid i archwilwyr ofyn am farn pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl o'r fath, er mwyn ystyried eu hanghenion.

57 Yn amodol ar safonau a chanllawiau proffesiynol a moesegol a ddarparaf21, rhaid i archwilwyr fod â'r nod o gyflawni'r canlynol wrth gynnal archwiliadau gwerth am arian ac astudiaethau eraill:

a Gweithio'n effeithlon i sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o adnoddau, lleihau dyblygu gwaith a lleihau'r galw ar gyrff a archwilir, drwy er enghraifft, rannu gwybodaeth berthnasol yn fewnol yn Archwilio Cymru ac â chontractwyr a allai gael dylanwad neu effaith ar waith archwilio arall a gyflawnir gennyf neu i lywio fy rhaglenni gwaith yn y dyfodol;

b rhannu gwybodaeth berthnasol â chyrff adolygu allanol;

c rhoi dibyniaeth briodol ar waith a gyflawnwyd yn flaenorol gan:

i archwilwyr;

ii swyddogaethau archwilio mewnol cyrff archwiliedig;

iii trefniadau hunanwerthuso cyrff archwiliedig;

iv cyrff adolygu allanol eraill.

20 Fel y'u diffiniwyd yn neddf Cydraddoldeb 2010

21 Gan gynnwys y “Llawlyfr Cyflawni Archwiliadau o Berfformiad”

a Helpu cyrff a gwasanaethau cyhoeddus i ddysgu oddi wrth ei gilydd drwy nodi cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgwyd â'r canlynol:

i cyfnewidfa arferion da Archwilio Cymru;

ii cyrff adolygu allanol perthnasol; a

iii buddiolwyr perthnasol eraill.

a Lle bo'n briodol, yn berthnasol, yn ddefnyddiol ac ynddo'i hun yn werth da am arian, rhannu'r hyn a ddysgwyd yn sgil gwaith archwilio â llunwyr polisi a gweithgorau yn y sector cyhoeddus.

b Yn ystod archwiliad, ystyried yn gymesur ohebiaeth (gweler paragraff 47) a geir gan y cyhoedd neu bartïon eraill sydd â buddiant, gan gynnwys unrhyw datgeliadau gan gyflogeion22, ynghylch materion sy'n berthnasol i'm swyddogaethau.

c Yn ystod archwiliad archwilio, cyfathrebu â chyrff a archwilir a thrydydd partïon perthnasol ynghylch y gwaith archwilio ar lefel briodol ac mewn modd amserol.

ch Yn ychwanegol at ofynion paragraff 22, gwneud gwaith cwmpasu cychwynnol cymesur i wirio pa mor rhesymol yw ymgymryd ag archwiliad neu astudiaeth lawn, a lle bo hynny'n wir, i gynllunio dulliau gwaith maes i fodloni'r gofynion isod.

58 Wrth ymgymryd â'r gwaith o gofnodi canlyniadau'r gwaith maes, rhaid i'r archwilwyr:

a gasglu tystiolaeth berthnasol a digonol i alluogi dod i gasgliadau dibynadwy;

b ceisio cyngor arbenigol digonol wrth archwilio materion pan nad ydynt yn arbenigwyr eu hunain; ac

c adolygu a yw cyrff a archwilir wedi rhoi sylw priodol i faterion perthnasol sylweddol a nodwyd yn flaenorol gan archwiliad a chyrff adolygu allanol eraill, ac a yw'r camau a argymhellwyd wedi'u gweithredu.

22 O dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998), mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'unigolyn rhagnodedig' sy'n gallu derbyn datgeliadau chwythu'r chwiban gan unrhyw gyflogeion mewn perthynas â chyflawni busnes cyhoeddus mewn ffordd briodol, gwerth am arian a thwyll a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

59 Ar ôl cwblhau gwaith maes, rhaid i archwilwyr:

a naill ai ddod i gasgliadau'n seiliedig ar dystiolaeth o'u gwaith maes neu, lle bo'n gydnaws â'r swyddogaeth y gwnaed y gwaith ynddi, gyflwyno canfyddiadau ffeithiol;

b ystyried a yw eu casgliadau'n gadarn, megis drwy ystyried a ydynt yn gyson â'r rhai sy'n codi o waith archwilio mewnol neu gyrff adolygu allanol eraill;

c penderfynu ar y negeseuon allweddol a strwythur yr allbynnau a ddefnyddir i gyflwyno adroddiad arnynt;

ch rhoi cyfle teg i gyrff a archwilir a thrydydd partïon perthnasol i wneud sylw, yn enwedig i ateb unrhyw feirniadaeth ac i roi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y canfyddiadau – rhaid rhoi amser digonol i bartïon perthnasol gan ystyried swm y deunydd a gyflwynir a phwysigrwydd y materion i'w buddiannau – lle mae'r gofyniad i ddarparu amser digonol i ymateb yn gwrthdaro â therfynau amser gweinyddol neu statudol, y gofyniad i ddarparu amser digonol fydd yn drech;

d gwneud argymhellion ar gyfer gwella, lle bo'n berthnasol, sydd, ym marn yr archwilydd, yn ddefnyddiol, yn benodol ac yn ymarferol, er budd y cyhoedd, yn gyson â datblygu cynaliadwy a'r egwyddor datblygu cynaliadwy[23], ac sy'n ystyried costau a heriau disgwyliedig gweithredu; a

dd chynhyrchu allbynnau sy'n hygyrch ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir, sy'n agored ynghylch cwmpas a chyfyngiadau'r gwaith, ac sy'n cyfeirio at enghreifftiau o welliant amlwg ac arfer da, fel sy'n briodol.

60 Ar ôl adrodd ar ganfyddiadau ac argymhellion, rhaid i archwilwyr:

a gofyn am ymateb gan gyrff a archwilir a phartïon perthnasol i'r canfyddiadau ac argymhellion hynny, a datgan mewn cyflwyniadau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd neu'r pwyllgor archwilio lleol a ydynt yn fodlon bod canfyddiadau ac argymhellion wedi cael eu hystyried yn briodol[24];

b monitro unrhyw gamau a gymerir mewn ymateb i'r argymhellion;

c gwneud sylwadau, yn ôl yr angen ac yn briodol, ar gynnydd a wnaed yn rhoi argymhellion ar waith, gan gynnwys mewn perthynas â'r rhai nad ydynt wedi'u hystyried nac wedi'u rhoi ar waith yn iawn; a

d chychwyn gwaith pellach sydd ei angen i fodloni dyletswyddau statudol neu i gynllunio ar gyfer arfer pwerau dewisol yn briodol

23 Fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

24 Y corff a archwilir sy'n gwbl gyfrifol am weithredu'r argymhellion, ac am y mecanweithiau ar gyfer gwneud hynny.

## Archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy

61 Mae Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a pennu amcanion llesiant; a

b chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

62 Rhaid i mi gynnal archwiliad o'r fath o bob corff cyhoeddus rhagnodedig o leiaf unwaith ymhob cyfnod adrodd a bennir gan Ddeddf 2015.[25] Cyn diwedd y cyfnod mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny.

63 Wrth gynnal archwiliad o'r fath byddaf yn ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd). Byddaf hefyd yn ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddir i'r corff cyhoeddus, neu unrhyw adolygiad o'r corff a'r argymhellion a wnaed iddo gan y Comisiynydd.

64 Lle bo'n gydnaws â gofynion statudol a phroffesiynol, wrth ymgymryd â'r archwiliadau hyn, byddaf yn ceisio eu cyfuno ag astudiaethau gwerth am arian a gweithio i fodloni fy hun ynghylch trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian. Felly, yn yr achosion hyn, bydd gofynion perthnasol y Cod hwn hefyd yn berthnasol.

65 Pan gânt eu cynnal fel archwiliadau annibynnol, mae gofynion y Cod hwn yn berthnasol i archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy fel pe baent yn archwiliad neu astudiaeth gwerth am arian.

25 Mae'r cyfnod adrodd ar hyn o bryd yn dechrau ar y dyddiad flwyddyn cyn y dyddiad y bydd etholiad cyffredinol cyffredin i'w gynnal o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'n dod i ben ar y dyddiad un diwrnod ac un flwyddyn cyn y dyddiad ar gyfer cynnal yr etholiad nesaf o'i fath. Mae hwn yn gyfnod o bum mlynedd ar hyn o bryd, ond mae Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn lleihau'r cyfnod i bedair blynedd.

## Arfer swyddogaethau archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

66 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau archwilio Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) y DU i Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu wneud gwaith o'r fath yn swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru (gan hefyd barhau i fod yn swyddogaethau'r C&AG).

67 Wrth arfer swyddogaethau archwilio o'r fath, rhaid i archwilwyr gynnal eu gwaith yn unol â'r gofynion perthnasol a nodir yn y Cod hwn.

# Atodlen 1: Swyddogaethau penodol eraill

## Darparu cyngor a chymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a phwyllgorau eraill y Senedd

1 Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd (y Pwyllgor) yn ystyried adroddiadau a baratowyd gennyf ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac yn ystyried pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol ydynt wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni swyddogaethau. Yna gall y Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiadau ei hun ar faterion a godwyd gennyf mewn adroddiadau, a gosod yr adroddiadau hynny gerbron y Senedd[26]. Yn ôl confensiwn, mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor i ddweud a yw'n derbyn yr argymhellion ai peidio ac, os cânt eu derbyn, sut y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu.

2 Gall y Pwyllgor ofyn am gymorth proffesiynol, technegol a gweinyddol gennyf i a staff Swyddfa Archwilio Cymru. Yn arbennig, gall y Pwyllgor ofyn am fy nghyngor ar ba mor ddigonol yw ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion, ond gall hefyd ofyn am gyngor a chymorth ar faterion proffesiynol, technegol a gweinyddol eraill, gan gynnwys materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith archwilio. Wrth ddarparu cyngor neu gymorth, rhaid i archwilwyr sicrhau nad chaiff annibyniaeth ei pheryglu, yn wir neu'n ymddangosiadol.

3 Fel y nodir ym mharagraff 22(g), lle bo adroddiadau'r Pwyllgor yn cynnwys argymhellion i gyrff a archwiliwyd, rhaid i archwilwyr ddwyn yr argymhellion hynny i sylw unigolion perthnasol, er enghraifft, mewn diweddariadau i bwyllgorau archwilio lleol neu'r hyn a fyddai'n cyfateb iddynt.

4 Gall pwyllgorau eraill y Senedd hefyd yn gofyn am gymorth proffesiynol, technegol a gweinyddol gennyf, gan gynnwys fy nghyngor ynghylch pa mor ddigonol yw ymateb Llywodraeth Cymru i'm hargymhellion innau neu eu hargymhellion eu hunain. Unwaith eto, wrth ddarparu cyngor neu gymorth o'r fath, rhaid i archwilwyr sicrhau na chaiff annibyniaeth ei pheryglu, yn wir neu'n ymddangosiadol.

26 Am ragor o wybodaeth, gweler *Rheolau Sefydlog y Senedd.*

## Arfer swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru

5 Caiff Gweinidogion Cymru, drwy gydsyniad gennyf ac ar ôl ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru, wneud darpariaeth i mi arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau goruchwylio cyrff cyhoeddus ar eu rhan, neu i drosglwyddo'r cyfryw swyddogaethau i mi. Golyga swyddogaethau goruchwylio swyddogaethau archwilio, adolygu neu astudio trefniadau ariannol neu drefniadau rheoli eraill neu'r ffyrdd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau.

6 Wrth arfer swyddogaethau goruchwylio o'r fath, rhaid i archwilwyr gynnal eu gwaith yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur ac yn atebol, safonau moesegol ac i'r graddau eu bod yn berthnasol, safonau proffesiynol. Rhaid i archwilwyr ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Cod hwn ar gyfer cynllunio a chyflawni eu gwaith, llunio adroddiadau arno a chymryd camau dilynol.

7 Mae statud yn gwneud darpariaeth bod rhaid i mi, os yw Gweinidogion Cymru yn fy nghyfarwyddo i wneud hynny, baratoi adroddiad ar arfer unrhyw swyddogaeth oruchwylio wedi ei throsglwyddo, a rhaid i mi osod yr adroddiad gerbron y Senedd. Unwaith eto, llunnir adroddiadau o'r fath yn unol â'r Cod hwn.

## Darparu cyngor a chymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

8 Lle rwy'n ystyried hynny'n briodol, gallaf[27] roi cyngor neu gymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru er mwyn i'r landlord cymdeithasol cofrestredig allu arfer ei swyddogaethau.

9 Wrth ystyried a yw darparu cyngor neu gymorth o'r fath yn briodol ac yn gymwys, rhaid i archwilwyr ystyried a yw'n gydnaws â safonau proffesiynol a moesegol, yn arbennig yr angen i ddiogelu annibyniaeth yr archwiliad. Rhaid i archwilwyr hefyd ystyried dymunoldeb gwneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus, yn cynnwys arbenigedd archwilio.

27 O dan adran 145D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

## Datgelu gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru

10 Gallaf[28] ddatgelu gwybodaeth a gafwyd gan archwilwyr wrth gynna; astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru. Er mwyn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i fod yn rheoleiddwyr effeithlon ac effeithiol, rhaid i archwilwyr pa mor berthnasol yw'r wybodaeth a gafwyd ganddynt wrth gynnal eu hastudiaethau mewn perthynas â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru.

11 Os yw archwilwyr yn nodi gwybodaeth berthnasol, rhaid iddynt ei rhannu â Swyddog Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'w throsglwyddo i swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru, yn amodol ar ystyriaethau diogelu data a hawliau dynol, a safonau proffesiynol a moesegol. Rhaid i archwilwyr gadw cofnodion o'r wybodaeth a rennir yn y ffordd hon. Ac eithrio lle byddai'n niweidiol neu'n debygol o niweidio swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru, rhaid i archwilwyr roi gwybod hefyd i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig perthnasol am yr wybodaeth sydd i'w rhannu, gan wirio ei chywirdeb â hwy cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol

12 Gallaf[29] gyfeirio unrhyw fater sy'n codi o archwiliad neu astudiaeth o lywodraeth leol at yr Ysgrifennydd Gwladol os yw'n ymddangos y gallai'r mater fod yn berthnasol i unrhyw un o swyddogaethau nawdd cymdeithasol yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid i archwilwyr sy'n cyflawni gwaith llywodraeth leol ystyried perthnasedd gwybodaeth a gafwyd ganddynt yn sgil gwneud y gwaith hwnnw i swyddogaethau nawdd cymdeithasol yr Ysgrifennydd Gwladol.

28 O dan adran 145C(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'r ffaith mai Gweinidogion Cymru yw rheoleiddwyr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

29 O dan adran 51 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004; mae'r ddarpariaeth hon yn helpu i alluogi fy ngwaith i gael ei ddefnyddio er budd swyddogaethau nawdd cymdeithasol

13 Pan fydd archwilwyr yn nodi gwybodaeth berthnasol, rhaid iddynt ei rhannu â Swyddog Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'w throsglwyddo i swyddogion perthnasol Llywodraeth y DU, yn amodol ar ystyriaethau diogelu data a hawliau dynol, a safonau proffesiynol a moesegol. Rhaid i archwilwyr gadw cofnodion o wybodaeth a rennir yn y ffordd hon. Ac eithrio lle byddai'n niweidio, neu'n debygol o niweidio swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, dylai archwilwyr roi gwybod hefyd i'r cyrff llywodraeth leol perthnasol am yr wybodaeth sydd i'w rhannu, gan wirio'i chywirdeb â nhw i'r cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Cymryd rhan â 'statws arsylwi' ar weithgorau allanol

14 Gofynnir yn aml i mi ddarparu cynrychiolwyr i weithgorau allanol a sefydlwyd gan gyrff a archwilir. Rhaid i archwilwyr sy'n fy nghynrychioli ar weithgorau o'r fath weithredu fel arsylwyr yn unig. Ni allant fod yn aelodau o grwpiau o'r fath. Gallant geisio cyfrannu cymaint ag y gallant drafodaethau drwy dynnu sylw at ganfyddiadau archwilio, ond ni ddylent fod yn rhan o'r broses o benderfynu ar bolisi na gweithredu polisi sy'n codi o weithgareddau'r grŵp.

15 Rhaid i archwilwyr sicrhau nad yw eu cyfranogiad fel arsylwyr ar weithgorau yn fy llyffetheirio mewn unrhyw ffordd wrth i mi gyflawni fy swyddogaethau archwilio amrywiol. Rhaid i archwilwyr hefyd wneud y gofyniad hwn yn hysbys i unrhyw weithgor y maent yn ei fynychu.

## Cyfarwyddo cyrff llywodraeth leol i gyhoeddi gwybodaeth am eu perfformiad

16 Gallaf gyfarwyddo cyrff llywodraeth leol i gyhoeddi gwybodaeth a allai hwyluso'r broses o gymharu gwerth am arian a pherfformiad.

17 Yn ogystal â gofynion statudol, fel ymgynghori â chymdeithasau perthnasol cyrff llywodraeth leol, cyn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, rhaid i archwilwyr roi sylw i'r angen i wneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus, yn cynnwys arbenigedd archwilio, a phwysigrwydd canolbwyntio ar y cyhoedd, yn enwedig gyda'r bwriad i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch rheoli adnoddau cyhoeddus.

## Paru data

18 Gallaf gynnal ymarferion paru data er mwyn atal a chanfod twyll.

19 Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus Cymru i atal a chanfod twyll, rwy’n cynnal proses paru data sef y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru. Mae’r NFI yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi ceisiadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus.

20 Caiff yr NFI yng Nghymru ei chynnal ar y cyd ag ymarferion NFI yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel y gellir paru data ar draws ffiniau cenedlaethol. Er mwyn sicrhau dull cyson o gweithredu a lleihau dyblygu ymdrechion, byddaf yn parhau i
gydweithio ag asiantaethau archwilio cenedlaethol eraill, yn gynnwys gwaith ar gyd-ddatblygu modiwlau paru data newydd, rhannu trefniadau prosesu data a rhannu adnoddau fel staff ac arweiniad technegol.

21 Rhaid i bob cyfranogwr mewn ymarferion paru data fel yr NFI, a gynhelir gennyf fi, neu ar fy rhan, gynnal eu gwaith yn unol â *Chod Ymarfer ar Baru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru*.

# Atodlen 2: Archwilio cyrff bach

1 Lle rwy'n nodi, bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol i archwilio cyrff bach.

2 Rhaid i archwilwyr cyrff bach[30] gynnal archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ychwanegol a'r esboniad a gaiff eu darparu gan y corff er mwyn fy modloni bod:

a y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol;

b arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon;

c y corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

3 Mae'n rhaid i archwilwyr gyflawni eu cyfrifoldebau[31], yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gennyf i, drwy:

a adolygu cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol ar gyfer y gwaith o baratoi'r cyfrifon blynyddol;

b cynnal adolygiad lefel uchel dadansoddol o wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a ddarperir i'r archwilydd;

c adolygu gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau sy'n angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth bod y corff wedi cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol, system ddigonol o reolaeth fewnol ac archwilio mewnol, ac wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau, drwy gydol y flwyddyn ariannol.

4 Os oes angen tystiolaeth bellach ar sail yr adolygiad mewn perthynas ag unrhyw fater perthnasol ar yr archwilydd, rhaid cyflawni profion ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

30 Cyrff â nail ai incwm blynyddol neu wariant blynyddol sy'n is na therfyn ariannol a bennir gennyf a'i nodi mewn canllawiau a gyhoeddir gennyf o bryd i'w gilydd.

31 Yn achos cyrff llywodraeth leol, rhaid i archwilwyr sicrhau eu bod yn cyflawni dyletswyddau adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

5 Pan fydd yr archwilydd wedi cwblhau archwiliad o’r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth a gwybodaeth ychwanegol ac esboniad wedi’u darparu, bydd yr archwilydd yn rhoi barn ar y cyfrifon ac yn ardystio bod yr archwiliad wedi’i gwblhau. Ar sail eu hadolygiad, mae archwilwyr yn rhoi sicrwydd nad oes materion wedi dod i’w sylw sy’n peri pryder:

- a nad yw’r cyfrifon a gwybodaeth arall a ddarperir yn cyflwyno neu’n cyflwyno materion ariannol y corff yn briodol neu’n deg;
- b nad yw’r cyfrifon a gwybodaeth arall a ddarperir yn cyd-fynd â’r gofynion penodedig;
- c nad yw gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol wedi’u bodloni.

6 Gall yr archwilydd hefyd gyhoeddi allbynnau pellach yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Er nad yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr, gall gynnwys:

- a adroddiadau a wneir er budd y cyhoedd;
- b datganiadau o resymau yn dilyn gwrthwynebiadau gan etholwyr yr awdurdodau lleol;
- c ymatebion i ohebiaeth;
- ch adborth ar sail eithriad lle mae unrhyw elfen o’r wybodaeth a adolygwyd yn dynodi:
    - i nad yw’r corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau; neu
    - ii fethiannau sylweddol gan y corff a archwilir o ran cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol.

7 Rhaid i’r archwilydd roi sylw arbennig i’r angen i arfer swyddogaethau mewn perthynas â chwestiynau a gwrthwynebiadau wrth archwilio, a gohebiaeth arall, yn gymesur, fel sy’n ofynnol gan baragraffau. 45 a 46, yn ogystal ag mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol.

# Atodlen 3: Cwmpas y Cod

1 Mae darpariaethau'r Cod hwn yn berthnasol i'r swyddogaethau canlynol ar sail statudol:

- a Archwilio unrhyw gyfrifon neu ddatganiadau ariannol sydd i'w harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan, neu yn rhinwedd deddf.
- b Cynnal neu hyrwyddo astudiaethau neu archwiliadau gwerth am arian yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan neu yn rhinwedd deddf.
- c Y swyddogaethau hynny a gynhwysir yn narpariaethau canlynol Deddf Llywodraeth Cymru 1998 neu a drosglwyddwyd i'r Archwilydd Cyffredinol o dan y ddeddf honno:
  - i Adran 145A(2) (cyflawni neu hyrwyddo astudiaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan gyrff penodol);
  - ii Adran 145C(8) (datgelu gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru);
  - iii Adran 145D (rhoi cyngor a chymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig);
  - iv Adran 146 (trosglwyddo swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyrff penodol i'r Archwilydd Cyffredinol); Adran 146A (trosglwyddo ac ati swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyrff penodol).
- ch Y swyddogaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau canlynol Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
  - i Rhan 2 (archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru);
  - ii Adran 45 (cynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal astudiaethau gweinyddu budd-daliadau);
  - iii Adran 51 (cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol).
- d Y swyddogaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn y darpariaethau canlynol yn Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:
  - i Paragraff 17 (hawl i weld dogfennau);
  - ii Paragraff 20 (ardystio ceisiadau, ffurflenni ac ati ar gais corff).

2 Er nad yw'n ofynnol drwy statud, rwyf hefyd wedi penderfynu bod darpariaethau'r Cod hwn yn berthnasol i'r canlynol:

a prif archwiliadau datblygu cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol a wneir o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;

b arolygiadau arbennig o dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

c agweddau penodedig gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol a ddarperir drwy gytundeb o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, fel cyngor i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.